# Partneriaeth Bro Ddiogelach

**PWYNTIAU ARBENNIG I'W NODI:**

- **Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud**
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cydlyniant Cymunedol
- **Cyfryngau Cymdeithasol**
- **Cam-drin Domestig**

## Beth yw'r Bartneriaeth?

Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach wedi ymrwymo i greu amgylchedd diogelach i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr; heb drosedd, heb anhrefn nac ofn troseddu.

Sefydlwyd y Bartneriaeth ym 1999 i alluogi asiantaethau i weithio'n well gyda'i gilydd i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Mae gostyngiad sylweddol mewn trosedd ac anrhefn dros y blynyddoedd diwethaf yn brawf o lwyddiant y Bartneriaeth.

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr a ddaw o'r sector statudol, y sector gwirfoddol, busnesau lleol a grwpiau cymunedol.

Mae partneriaid allweddol yn cynnwys Cyngor Bro Morgannwg, Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a Gwasanaeth Tân De Cymru.

Drwy gyllid gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Llywodraeth Cymru gall y Bartneriaeth gefnogi prosiectau lleol i leihau trosedd ac anrhefn .

## Beth Ydyn ni'n ei Gwmpasu

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Teledu cylch cyfyng
- Cydlyniant Cymunedol
- Ymgysylltu â'r Gymuned
- CONTEST
- Atal Trosedd
- Cam-drin Domestig
- Trosedd Casineb
- Trwyddedu
- Masnachwyr Twyllodrus
- Camddefnyddio Sylweddau
- Cymorth i Ddioddefwyr

# Beth yw arwyddion cam-drin domestig?

Gall trais a cham-drin domestig ddigwydd i unrhyw un, beth bynnag yw ei faint, ei ryw, neu ei gryfder, ond caiff y broblem ei hanwybyddu, ei hesgusodi neu ei gwadu'n aml. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd y cam-drin yn seicolegol, yn hytrach na chorfforol. Yn aml gwneir yn fach o gam-drin emosiynol, er y gall adael creithiau dwfn a pharhaol.

Sylwi a chydnabod arwyddion rhybudd a symptomau trais a cham-drin domestig yw'r camau cyntaf tuag at ddod â nhw i ben. Ni ddylai unrhyw un fyw mewn ofn o'r person mae'n ei garu.  Os ydych yn adnabod eich hun neu rywun rydych yn ei adnabod yn yr arwyddion rhybudd a'r disgrifiadau o gam-drin sy'n dilyn, peidiwch ag oedi cyn gofyn am help.

**Beirniadaeth ddinistriol a cham-drin geiriol**: gweiddi/ gwawdio/cyhuddo/galw enwau/bygwth ar lafar

**Tactegau rhoi pwysau**: pwdu, bygwth tynnu arian yn ôl, datgysylltu'r ffôn. mynd â'r car i ffwrdd, cyflawni hunanladdiad, mynd â'r plant i ffwrdd, rhoi gwybod amdanoch chi i'r asiantaethau lles oni bai eich bod yn cydymffurfio â'i ofynion o ran magu'r plant, dweud celwyddau amdanoch chi i'ch ffrindiau a'ch teulu, dweud wrthoch chi nad oes gennych chi unrhyw ddewis o ran gwneud unrhyw benderfyniadau.

**Diffyg parch:** eich rhoi i lawr yn barhaus o flaen pobl eraill, peidio â gwrando neu ymateb pan fyddwch yn siarad, torri ar draws eich galwadau ffôn, cymryd arian o'ch pwrs heb ofyn, gwrthod helpu gyda gofal plant neu waith tŷ.

**Torri ymddiriedaeth:** dweud celwyddau wrthoch chi, dal gwybodaeth yn ôl oddi wrthoch chi, bod yn genfigennus, cael perthnasau eraill, torri addewidion a chytundebau a rennir.

**Ynysu:** monitro neu flocio eich galwadau ffôn, dweud wrthoch chi ble gallwch chi a ble na allwch chi fynd, eich atal rhag gweld ffrindiau a pherthnasau.

**Aflonyddu:** eich dilyn, gwirio arnoch, agor eich post, gwirio dro ar ôl tro i weld pwy sydd wedi eich ffonio, codi embaras arnoch chi yn gyhoeddus.

**Bygythiadau:** gwneud ystumiau crac, defnyddio maint corfforol yn fygythiol, siarad drosoch chi, dinistrio eich eiddo, torri pethau, pwno waliau, bygwth gyda chyllell neu ddryll, bygwth eich lladd neu eich niweidio chi a'r plant.

**Trais rhywiol:** defnyddio grym, bygythiadau neu ddychrynu i'ch gorfodi i berfformio gweithredoedd rhywiol, cael rhyw gyda chi pan nad ydych chi eisiau cael rhyw, unrhyw driniaeth ddiraddiol sy'n seiliedig ar eich cyfeiriadedd rhywiol.

**Trais corfforol:** pwno, slapio, bwrw, brathu, cicio, tynnu gwallt allan, gwthio, hwpio, llosgi, tagu.

**Gwadu:** dweud nad yw'r cam-drin yn digwydd, dweud eich bod wedi achosi'r ymddygiad camdriniol, bod yn dyner ac yn amyneddgar yn gyhoeddus, crio a begian am faddeuant, dweud na fydd byth yn digwydd eto. .





# Gwella Diogelwch

Mae'r tîm Diogelwch Cymunedol yn darparu gwasanaeth Gwella Diogelwch yn y Fro lle gall gwasanaethau perthnasol gyfeirio dioddefwyr i'r cynllun. Nod y gwasanaeth yw darparu mesurau diogelwch ychwanegol i ddioddefwyr Cam-drin Domestig yn eu cartrefi. Wrth wneud hynny, mae dioddefwyr a'u teuluoedd yn cael y cyfle i gadw'n ddiogel yng nghartref y teulu - gan leihau tarfu ar eu bywyd teuluol bob dydd. Heb hyn byddai angen i'r dioddefwyr niferus a'u teuluoedd fynd i loches neu symud cartref er mwyn cadw'n ddiogel - sydd yn ei dro yn gallu bod yn hynod aflonyddgar ac yn gostus. Er enghraifft, efallai y bydd angen i blant symud ysgolion ac maen nhw'n debygol o gael eu symud i ffwrdd o'u teulu a'u ffrindiau. Wrth ddileu'r cysylltiadau hyn, gall plant a dioddefwyr fynd yn fwyfwy gofidus y sgil y teimlad o fod yn ynysig. Mae hyn yn arbennig o gyffredin pan fydd dioddefwyr a theuluoedd yn cael eu symud i loches mewn rhan arall o'r wlad.

Gall y rhaglen Gwella Diogelwch ddarparu nifer o nodweddion diogelwch ychwanegol i'r dioddefwyr a'r teuluoedd. Nod y nodweddion hyn yw rhoi mwy o hyder i'r dioddefwyr yn niogelwch eu cartref eu hunain, gan ganiatáu iddyn nhw aros yn eu cartref heb eu hynysu oddi wrth deulu a ffrindiau drwy adleoli.



**Atal y Fro**
01446 744755
**Byw Heb Ofn**
0808 8010 800
**Datrysiadau Tai**
01446 700111
**Gwasanaethau Cymdeithasol Brys**
029 20 788570
**Child line**
0800 1111
**Taith**
0300 300 7000
**Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru**
0808 808 2234
**CAYRh (Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol)**
029 2033 5795
**Prosiect Dyn**
0808 801 0321
**BAWSO Caerdydd**
029 20644 633
**Shelter Cymru Rhadffon -**
08000 495 495
**Y Samariaid Caerdydd**
116 123 am ddim o unrhyw ffôn
**Uned Mân Anafiadau y Barri**
01446 704042
**Mewn argyfwng, ffoniwch 999,**
**os nad yw'n argyfwng 101 neu publicservicecentre@south-wales.pnn.police.uk**

# Proses 4 Cam Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn weithred sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu ofid. Gall gynnwys ymddygiad afreolus a meddw, iaith fygythiol ac ymosodol mewn man cyhoeddus, graffiti neu ddifrod troseddol. Mewn ffordd, mae'n unrhyw ymddygiad sy'n atal pobl eraill rhag mwynhau ansawdd bywyd derbyniol.

Mae'r Bartneriaeth yn gweithredu proses pedwar cam wrth ddelio ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol

Cam 1 Rhybudd

Cam 2 Ymweliad amlasiantaethol

Cam 3 Contract Ymddygiad Derbyniol (CYD)

Cam 4 Ystyried achosion cyfreithiol

Cam 1 -
**Ieuenctid** - Anfonir llythyr at riant/gwarcheidwad ynghylch person ifanc i roi gwybod am yr ymddygiad a adroddwyd a'r camau pellach posibl y gellir eu cymryd
**Oedolion** - Anfonir llythyr rhybuddio yn rhoi gwybod am y camau pellach posibl y gellir eu cymryd
**Dioddefwyr** – Anfonir llythyr yn cynnig cymorth

Cam 2 (Cyflwynir o fewn 6 mis)
Bydd digwyddiadau pellach neu ddigwyddiad cychwynnol mwy difrifol yn arwain at gyfarfod â swyddogion o'r bartneriaeth. Mae'r cyfarfod hwn yn ffordd o atgyfnerthu'r neges bod ymddygiad o'r fath yn annerbyniol ac na chaiff ei oddef. Mae hefyd yn cynnig cyfle i nodi gwraidd yr ymddygiad ac, os oes angen, i gynnig cymorth i'r person er mwyn iddo newid ei ymddygiad.
**Ieuenctid** – Gofynnir i'r person ifanc a'r rhiant/gwarcheidwad fynychu cyfarfod lle byddant yn cael rhybudd gan aelod o'r TDC (Tîm Diogelwch Cymunedol) ac yn cael cynnig cymorth gan y Swyddog Atal o'r GTI (Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid).
**Oedolion** – Ymweliad â'r cartref gan y TDC i gyflwyno'r rhybudd a chynnig cymorth.

Cam 3
Os yw'r ymddygiad yn parhau mae Cam 3 yn cael ei alw'n gam 'CYD' (Contract Ymddygiad Derbyniol), lle caiff y person ei wahodd i gyfarfod lle bydd gofyn iddo lofnodi'r CYD. Mae hyn yn ymrwymiad ganddo i newid ei ymddygiad.

**Person Ifanc** – cynigir Panel Datrys Cymdogaethol (PDC) i'r person ifanc. Mae'r PDC yn cynnwys Swyddog y Bartneriaeth, Swyddog y GTI a gwirfoddolwr y GTI.
**Oedolyn** – Ymweliad â'r cartref gan y TDC i gyflwyno CYD, y rhybudd ag amodau ac i gynnig cymorth.

Amodau CYD

**Amodau Enghreifftiol**

**Amodau i Bobl Ifanc**

Os ydw i mewn grŵp o ffrindiau sy'n ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol, byddaf yn tynnu fy hun allan o'r grŵp ac yn cerdded i ffwrdd.

Ni fyddaf yn mynd i unrhyw safle yr wyf wedi cael fy ngwahardd ohono, ac rwy'n deall mai tresmasu fyddai hynny.

**Amodau i Oedolion**

Ni fyddaf yn yfed nac yn meddu ar alcohol mewn man cyhoeddus ac ni fyddaf yng nghwmni'r rhai sydd ag alcohol yn eu meddiant mewn man cyhoeddus oni bai ei bod yn safle â thrwydded.

Ni fyddaf yn gwneud nac yn caniatáu i'm hymwelwyr wneud unrhyw sŵn y gellir ei glywed y tu allan i ffiniau fy nghartref, fel sgrechian a gweiddi ac ati.

Torri Cam 3

**Oedolion** – Ymweliad ychwanegol â'r cartref i gyhoeddi bod y CYD wedi'i dorri, trafod yr ymddygiad a'r broses, a chynnig cymorth perthnasol. Caiff hyn ei wneud gan unrhyw 2 Swyddog Partneriaeth

**Person Ifanc** – Llythyr gan GTI i gyhoeddi bod y CYD wedi'i dorri, neu bydd PCD pellach yn cael ei drefnu.

Cam 4

Dyma gam olaf y broses a'r pwynt lle bydd y bartneriaeth, ar ôl ymgynghori, yn gwneud cais am waharddeb sifil neu orchymyn ymddygiad troseddol. Mae hwn yn orchymyn a wneir yn y llys a bydd yn nodi cyfyngiadau a gwaharddiadau a newidiadau cadarnhaol i ymddygiad yr unigolyn er mwyn rheoli ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Os torrir y gorchymyn hwn bydd y mater wedyn yn symud i'r llysoedd troseddol er mwyn cymryd camau pellach.

Isod mae rhai o'r pwerau/opsiynau y mae'r tîm Diogelwch Cymunedol yn eu defnyddio.

Beth yw Gwaharddeb Sifil (GS)?

Mae hyn ar gael yn y llys sirol i oedolion a'r llys ieuenctid i bobl ifanc rhwng 10 a 17 oed. Fe'i cynlluniwyd i atal ymddygiad gwael cyn iddo waethygu. Byddai gan y waharddeb faich profi sifil, gan ei gwneud yn gyflymach ac yn haws ei chael na dulliau blaenorol. Yn achos oedolion, byddai torri'r waharddeb yn arwain at fynd i'r carchar neu gael dirwy. Yn achos pobl ifanc dan 18 oed, gellir ymdrin ag achosion o dorri'r waharddeb drwy orchymyn cyrffyw, goruchwylio neu gadw.

Beth yw Gorchymyn Ymddygiad Troseddol (GYT)?

Bydd y gorchymyn, a gyhoeddir gan y llysoedd ar ôl euogfarn, yn gwahardd unigolyn rhag gwneud gweithgareddau penodol neu fynd i leoedd penodol, a gall gynnwys gofynion cadarnhaol iddo fynd i'r afael â'i ymddygiad, er enghraifft, mynychu rhaglen triniaeth am gyffuriau. Gallai methu â chydymffurfio arwain at yr unigolyn yn cael ei anfon i'r carchar am 5 mlynedd ar y mwyaf.

Beth yw Gorchymyn Cau Eiddo (GCE)?

Mae'r pŵer i gau yn rym cyflym a hyblyg y gellir ei ddefnyddio i ddiogelu dioddefwyr a chymunedau drwy gau'n gyflym safleoedd sy'n achosi niwsans neu anhrefn. Daw'r grym mewn dau gam sy'n gysylltiedig yn y bôn: yr hysbysiad cau a'r gorchymyn cau. Gall y cyngor neu'r heddlu ddefnyddio'r hysbysiad cau heb fynd i'r llys. Ar ôl cyflwyno hysbysiad cau, rhaid gwneud cais i lys yr ynadon am orchymyn cau, oni bai bod yr hysbysiad cau wedi'i ganslo.

Beth yw Grym Gwasgariad yr Heddlu (GGH)?

Pŵer sydd gan yr heddlu i roi cyfarwyddyd i unrhyw unigolyn sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol, neu sy'n debygol o ymddwyn yn y ffordd honno, i symud o le penodol ac i atafaelu eitemau cysylltiedig. Gellir symud person o ardal am hyd at 48 awr, os awdurdodir hynny gan arolygydd yr heddlu neu swyddog uwch.

Beth yw Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC)?

Mae GDMC yn cynnig ymdrin â niwsans penodol mewn ardal benodol sy'n cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rheiny yn y gymuned leol. Gall wahardd rhai pethau neu ei gwneud yn ofynnol bod rhai pethau penodol yn cael eu gwneud.

Beth yw Hysbysiad Diogelu'r Gymuned (HDG)?

Nod HDG yw atal ymddygiad afresymol sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned leol. Gall unrhyw berson 16 oed neu hŷn gael hysbysiad, boed yn unigolyn neu'n fusnes, a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddygiad ddod i ben ac, os oes angen, yn caniatáu cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'n cael ei ailadrodd yn y dyfodol.

Beth yw Sbardun Cymunedol?

Mae'r Sbardun Cymunedol yn broses sy'n caniatáu i'r cyhoedd ofyn i'w Partneriaeth Diogelwch Cymunedol leol adolygu ymatebion i achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cyn belled y bodlonir y meini prawf ar gyfer y Sbardun, caiff ei ymchwilio iddo. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.safervale.co.uk.

# Terfysgaeth

**Beth yw CONTEST?**

Yr enw ar strategaeth y Llywodraeth i ymdrin â Therfysgaeth yw CONTEST. Nod CONTEST yw lleihau'r risg i'r DU a'i buddiannau dramor yn sgil terfysgaeth.

**Paratoi,** yn ymwneud â phrofi ac ymarfer yn fewnol ac yn allanol gyda'r cyhoedd. (profi saethwr gweithredol ac ymateb yr heddlu / milwrol)

**Gwarchod,** yn edrych ar adeiladau gorlawn / lleoedd eiconig o ran diogelwch adeilad / personol. (stadia chwaraeon a rhwystrau amddiffynnol i atal mynediad cerbydau i dyrfâu)

**Cymryd Camau,** yn canolbwyntio ar yr ochr ymchwilio/erlyn - casglu tystiolaeth (yn aml yn clywed am gyrchoedd terfysgaeth mewn tai neu dreialon yn y llys)

**Atal,** ei brif bwrpas yw atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

**Beth yw Prevent?**

***"Nod y strategaeth Prevent yw lleihau bygythiad terfysgaeth i'r DU drwy atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth."***

Diogelu'r rhai sydd mewn perygl

Ymdrin â phob math o eithafiaeth

Dull amlasiantaethol o gefnogi'r person

Darparwyr Ymyrraeth Cymeradwy, arbenigwyr yn eu maes

Mae Prevent yn gweithio gyda'r rhai sy'n agored i niwed ac sydd mewn perygl o radicaleiddio a lle mae pryderon wedi'u nodi. Mae'r pryderon hyn yn cyrraedd ar ffurf atgyfeiriad fel e-byst, galwadau ffôn gan gydweithwyr, partneriaid ac aelodau o'r cyhoedd. Yr hyn sy'n allweddol yma yw cael y wybodaeth. Y Tîm Diogelwch Cymunedol sy'n gyfrifol am gydlynu hyn.

Channel

Mae Channel yn rhan o'r strategaeth Prevent. Mae'r broses yn ddull amlasiantaethol o nodi a rhoi cymorth i unigolion sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth.

Cyfarfodydd diogelu amlasiantaethol

Cymorth cynnar i unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu denu i derfysgaeth

Manteision dull amlasiantaethol

- Nodi unigolion sydd mewn perygl
- Asesu natur a graddau'r risg honno
- Llunio cynlluniau cymorth wedi'u teilwra

# Cydlyniant Cymunedol

**Beth yw monitro Tensiynau?**

Mae Cydlyniant Cymunedol yn ymwneud â gwella cysylltiadau cymunedol yn y Fro. I wneud hyn mae angen i ni wybod beth sy'n achosi tensiynau rhwng cymunedau. Mae'n bwysig edrych ar sut mae cymunedau'n teimlo a beth sy'n eu hatal rhag rhyngweithio â'i gilydd.

Mae'r broses monitro tensiynau cymunedol yn ymwneud â gweithgarwch cymunedol a rheoli risg ffactorau posibl sydd â'r posibilrwydd o darfu ar yr heddwch a chreu anhrefn.


Mae'r broses monitro tensiynau cymunedol yn hysbysu'r awdurdod lleol a phartneriaid gyda gwybodaeth leol er mwyn rheoli tensiynau cymunedol posibl yn effeithiol.

Gall tensiynau ddod i'r amlwg rhwng gwahanol grwpiau ethnig neu ffydd, newydd-ddyfodiaid a thrigolion hirdymor, ifanc a hen, cyfoethog a thlawd. Felly, mae'n bwysig bod gan Fro Morgannwg a'i phartneriaid y wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau/materion lleol o fewn y gymuned er mwyn gallu nodi mannau tensiwn amlwg er mwyn cynnal ymyrraeth gynnar, ac atal problemau rhag gwaethygu.

Bwriad y broses fonitro yw casglu gwybodaeth gan staff awdurdodau lleol a sefydliadau partner a fydd yn bwydo i broses monitro tensiynau yr Heddlu a rhagwelir y bydd yn helpu i greu darlun ar lefel gymdogaeth, er mwyn ein galluogi i ymateb yn gadarnhaol gyda chefnogaeth.

## Y broses monitro tensiynau:

- Nid yw'n disodli systemau ffurfiol ar gyfer cofnodi troseddau neu ddigwyddiadau casineb ac ati.
- Mae'n tynnu data at ei gilydd o ystod o ffynonellau neu fapio deallusrwydd.
- Mae'n darparu'r wybodaeth 'feddalach' - y wybodaeth sy'n dod o wybodaeth pobl am beth sy'n digwydd mewn cymunedau, digwyddiadau heb eu hadrodd, sibrydion, straeon ac ofnau.



**Tension Monitoring Pro-forma**

SAFER VALE BRO DDIOGELACH

Name of person completing the form:

Organisation:

Contact Tel:

Email:

| | |
|---|---|
| Date of Incident | |
| Where it happened? (Street/ Area) | |
| Who was involved? | |
| What has happened? | |
| What actions has been taken and by whom? | |
| Date & reference number if reported to Police via Non Emergency "101" or Emergency "999" | |
| What impact has the incident had on the local community? | |
| Other Comments | |

# Grwpiau Cymunedol

Gweledigaeth y Cynllun Gwarchod Cymdogaeth yw cael cymdeithas ofalgar, sy'n canolbwyntio ar ymddiriedaeth a pharch a lle mae pobl yn ddiogel rhag trosedd ac yn gallu mwynhau ansawdd da o fywyd. Nod y cynllun yw dod â chymdogion ynghyd i greu cymunedau actif, cyfeillgar a chryf lle mae trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llai ffafriol.

I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch— VOGNHW-@outlook.com

Nod y Cynllun Gwarchod Cefn Gwlad yw codi ymwybyddiaeth am gymunedau gwledig mewn perthynas ag atal trosedd, lleihau cyfleoedd am droseddu mewn cymunedau gwledig a ffermio, lleihau cyfleoedd lleol am ladrad a da byw/da marw, atgyfnerthu ysbryd cymunedol, annog pobl i roi gwybod am ymddygiad amheus a chyflwyno systemau rhybuddio cynnar a llif deallus mewn ardaloedd cefn gwlad a ffermio.

Paws on Patrol is a scheme to build community spirit where dog walkers Mae Paws on Patrol yn gynllun i fagu ysbryd cymunedol lle y gall cerddwyr cŵn gyfrannu at ddiogelu eu cymdogaethau, lleihau'r cyfle am drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau ofn trosedd, yn benodol ymhlith y rhai sy'n agored i niwed.

Rydym yn annog cerddwyr cŵn i roi gwybod am unrhyw ymddygiad amheus, tipio anghyfreithlon neu gynnau tân bwriadol y gallech eu gweld tra byddwch allan gyda'ch ci/cŵn.

Mae Pubwatch yn galluogi tafarnwyr i gymryd camau ar y cyd i wahardd pobl sy'n creu trafferth, ac mae hefyd yn hybu cysylltiadau effeithiol rhwng trwyddedigion, yr heddlu ac awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn helpu i wneud safleoedd trwyddedig yn fannau lle gall pobl eu mwynhau eu hunain yn ddiogel.

Mae cynllun Gwarchod Maes Awyr Bro Ddiogelach yn gynllun aelodaeth hedfan. Ei nod yw helpu i atal troseddu a therfysgaeth drwy ofyn i'w aelodau i fod yn wyliadwrus am unrhyw beth anarferol ac i gysylltu â'r Heddlu os byddan nhw'n gweld rhywbeth amheus.

Mae'r cynllun yn gweithio drwy roi cerdyn adnabod â llun i aelodau i'w wisgo, a sticer i roi yn ffenest y car, fel bod modd i'r heddlu a thimau diogelwch y maes awyr eu hadnabod yn hawdd.

Diben Airport Watch yw helpu i atal troseddu a therfysgaeth drwy ofyn i'w aelodau i fod yn wyliadwrus am unrhyw beth anarferol ac i gysylltu â'r Heddlu os byddan nhw'n gweld rhywbeth amheus. Hefyd, i atal ac amharu ar gyfleoedd i droseddu ddigwydd o fewn perimedr y maes awyr, tiroedd y maes awyr a'r gymuned leol, cryfhau ysbryd y gymuned, gwella cyfathrebu rhwng y Grŵp Hedfan, y Maes Awyr, Heddlu De Cymru ac Asiantaethau Statudol, annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau amheus wrth iddyn nhw ddigwydd, lleihau cyfleoedd lleol ar gyfer lladrad, i gyflwyno systemau rhybuddio cynnar ar dir y maes awyr, perimedr y maes awyr a'r cymunedau lleol.

# Camfanteisio ar Blant

Mae grwpiau troseddu cyfundrefnol yn meithrin perthnasau amhriodol â phobl ifanc i'w gorfodi a'u rheoli i gyflawni troseddau. Mae'r bobl agored i niwed hyn wedyn yn cael eu defnyddio a'u cam-drin gan gangiau trefol sy'n delio cyffuriau.



**Gweld yr Arwyddion**

**Nifer anarferol o ymwelwyr?** Mae gangiau yn meddiannu cartrefi trigolion lleol - ac yn eu defnyddio fel canolfan i weithredu ohoni

**Teithio ar eu pen eu hunain?** Mae gangiau yn gorfodi pobl ifanc i gario cyffuriau i'r sir

**Ar y ffôn?** Dyma sut mae aelodau gangiau yn cyfathrebu â'u 'rhedwyr'

**Cario neu werthu cyffuriau?** Mae uwch aelodau gangiau yn osgoi cael eu canfod drwy gael eraill i ddelio eu cyffuriau

**Cariad newydd?** Mae aelodau gangiau yn meithrin perthynas amhriodol â phobl ifanc sy'n ffurfio 'perthynas' i orfodi a'u rheoli



**Arian neu anrhegion/ eiddo newydd heb esboniad?** Mae gangiau yn denu unigolion gydag arian parod, anrhegion a chyffuriau sy'n eu gadael yn ddyledus i'r gang

**Ofnus?** Mae gangiau yn dominyddu gydag ofn a thrais
Mae pobl agored i niwed yn cael eu defnyddio a'u cam-drin gan gangiau trefol sy'n delio cyffuriau.
Gweld yr arwyddion?

**Tor-perthynas â theulu a ffrindiau?**

**Newidiadau mewn ymddygiad gan gynnwys troseddolrwydd?**

**Arwyddion o niwed corfforol gan gynnwys rhywiol?**

Helpwch i amddiffyn eich cymuned, **ADRODDWCH.**
Nid oes rhaid i chi fod yn siŵr ond yn bryderus

# Trosedd Cyllell - Deallwch

Mae Heddlu De Cymru wedi cyhoeddi rhestr o arwyddion rhybuddio a allai ddangos bod person ifanc yn cario cyllell. Mae'r rhain yn bennaf ar gyfer rhieni ond maen nhw'n ddefnyddiol i unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â phobl ifanc.

1. Ydyn nhw'n tynnu'n ôl o'r teulu a/neu'r ysgol?
2. Ydy'r ysgol neu'r coleg yn adrodd newidiadau pryderus mewn ymddygiad, cyflawniad academaidd neu bresenoldeb?
3. Ydyn nhw wedi colli diddordeb mewn gweithgareddau cadarnhaol fel clybiau chwaraeon?
4. Ydyn nhw'n aros allan yn anarferol o hwyr heb roi rheswm ac yn amwys ynglŷn â'u lleoliad?
5. Ydyn nhw wedi rhoi'r gorau i weld hen ffrindiau a dechrau cadw cwmni gyda grŵp newydd?
6. Ydyn nhw'n gyfrinachol am gynnwys eu bag?
7. Ydyn nhw'n amddiffynnol os ydych chi'n gofyn beth sydd yn eu meddiant neu ydyn nhw'n cuddio unrhyw beth?
8. Ydy eu hagwedd wedi newid ynglŷn â chario cyllyll/arfau? Er enghraifft, ei gyfiawnhau drwy ddweud bod pobl yn eu cario i amddiffyn eu hunain?
9. Oes unrhyw eitemau wedi mynd ar goll o'r gegin, blwch offer neu garej?
10. Ydych chi wedi dod o hyd i arf wedi'i guddio ymysg eu heiddo?

# Awgrymiadau i Rieni

- Byddwch yn ymwybodol o ba gyllyll ac eitemau eraill sydd gennych yn y gegin a'r blwch offer. Gwiriwch eu bod nhw i gyd yno.
- Cadwch lygad ar ddanfoniadau i'ch cartref ac edrych am unrhyw bryniannau ar-lein. Gall cyllyll ddod mewn pob math o siapiau a meintiau; yn ddiweddar darganfuwyd bod cwmni o'r Unol Daleithiau yn hysbysebu ar Instagram, gyllyll wedi'u cuddio fel minlliwiau a chribiau – yn amlwg wedi'u hanelu at ferched ifanc.
- Cadwch i ymgysylltu â bywyd y plant; cadw llygad ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol
- Ystyriwch chwilio eu bag a'u hystafell – oes tystiolaeth o gyffuriau, arian ychwanegol, dillad newydd?
- Ystyriwch guddfannau eraill
- Cofiwch efallai na fydd yn gyllell ond rhyw arf arall
- Byddwch yn ymwybodol o ble maen nhw a gyda phwy maen nhw
- Anogwch nhw i dreulio amser mewn ardaloedd diogel lle bynnag y bo modd

# Adrodd

Os ydych chi'n meddwl bod rhywun rydych chi'n ei adnabod, neu rywun yn eich ardal, yn cario cyllell, ADRODDWCH HYNNY AR UNWAITH i'ch heddlu lleol ar 101.

Gallwch ffonio Crimestoppers yn ddienw ar 0800 555 111 neu adrodd ar-lein yn Fearless.org, sydd yn benodol ar gyfer pobl ifanc.

Yn Crimestoppers.org a Fearless.org, gallwch drosglwyddo gwybodaeth am weithgaredd troseddol neu weithgaredd troseddol posibl heb roi unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch eich hun.

Ffoniwch 999 mewn argyfwng bob tro.

Os ydych chi'n poeni am eich plentyn, gallech hefyd geisio siarad â theuluoedd eu ffrindiau. Os ydych chi'n poeni, mae'n debygol bod ganddyn nhw bryderon am eu plentyn nhw hefyd. Gall gweithio gyda'ch gilydd fod yn ffordd werthfawr o edrych allan am eich gilydd a helpu i gadw'ch plant yn ddiogel.

Last year, over **19,000** people were caught carrying a knife in England & Wales

In 2016, **39** children aged 10 and 11 were given cautions for carrying knives

**20%** of those caught with knives are under 18

The number of stab victims in England aged 10 to 16 rose by **63%** in the five years from 2012 to 2017

In the first 3 months of 2018, **26** people were murdered by knives

# Cyngor Cyfryngau Cymdeithasol

Yubo/Yellow

Ap am ddim sy'n cael ei ddisgrifio fel Tinder i bobl ifanc. I fod â chyfrif Yubo rhaid i ddefnyddwyr fod y 13+ i 17 oed a rhaid bod ganddyn nhw ganiatâd rhiant. Fodd bynnag, mae'n hawdd darparu dyddia geni anghywir, mae hyn yn peri pryder diogelwch ynghylch rheibwyr sy'n defnyddio'r ap. Wrth greu cyfrif Yubo, rhaid i ddefnyddwyr roi eu henw cyntaf, rhyw, a dyddiad geni, lleoliad a rhif ffôn symudol. Gall defnyddwyr eraill weld enw cyntaf, oedran, dinas a llun proffil. Yna bydd defnyddwyr yn ychwanegu llun proffil a gallan nhw ychwanegu hyd at 5 llun arall at eu proffil. Gall defnyddwyr gysylltu â merched, bechgyn neu'r ddau. Gellir cysylltu cyfrifon Instagram â'r ap hefyd.

Ar ôl i'r ap gael ei sefydlu, mae'n gweithio fel Tinder. Mae'r defnyddwyr yn sweipio i'r dde os ydyn nhw am gysylltu rhywun a pheidio â sweipio os nad ydyn nhw'n dymuno cysylltu ag ef. Hefyd, pan fydd y ddau ddefnyddiwr yn sweipio i'r dde, bydd y defnyddwyr wedyn yn gallu anfon negeseuon at ei gilydd. Mae adroddiadau wedi bod yn y cyfryngau am yr ap yn ymwneud â digwyddiadau secstio. Pryder diogelwch yw bod defnyddwyr yn gallu darlledu byw ar yr ap a gall dieithriaid weld y ffrwd byw nid ffrindiau yn unig.

Mae Net aware yr NSPCC yn ystyried risgiau rhywiol yn rhai lefel uchel, trais a chasineb yn risg uchel, bwlio yn risg ganolig, hunanladdiad a hunan-niweidio yn risg ganolig ac yfed, cyffuriau a throsedd yn risg ganolig.

Snapchat

Mae Snapchat yn ap rhannu lluniau sy'n caniatáu i luniau gael eu rhannu am gyfnod o hyd at 10 eiliad neu gellir eu gosod ar gyfer cyfnod diderfyn ar gyfer y derbynnydd. Mae gosodiad yr ap yn annog llun rhywiol i gael eu hanfon, oherwydd bod y lluniau yn ymddangos am gyfnod byr o amser yn unig. Fodd bynnag, mae posibilrwydd y bydd rhywun yn sgrinlunio. Gall defnyddwyr bostio straeon sy'n lluniau s para am gyfnod o 24 awr, yna byddan nhw'n cael eu dileu. Gallwch hefyd gwneud galwadau ffôn a fideo ar snapchat. Pryder diogelwch arall yw nad oes angen llun ar eich proffil nac arddangos eich oedran.

Un o beryglon mwyaf yr ap yw mapiau Snapchat. Mae mapiau Snapchat yn fap o'r byd a thrwy chwyddo i mewn gellir gweld enwau strydoedd, siopau, canolfannau hamdden, ysgolion ac yn y blaen. Bydd defnyddwyr yn ymddangos ar y map fel ffigur animeiddiedig. Mae mapiau Snapchat yn caniatáu i leoliad y defnyddwyr gael ei we Bydd yn arddangos gan ddefnyddio eiconau os ydyn nhw'n teithio ar y ffordd, ar drên neu awyren, gan ddangos yr union ffordd, gorsaf, maes awyr ac yn y blaen. Os yw person arall yn dangos eu mapiau snapchat ac mae'r defnyddwyr yn yr un lleoliad, byddwch chi'n gallu gweld eu bod gyda'i gilydd. Felly, rydym yn annog defnyddwyr beidio â rhannu eu lleoliad.

Mae Net aware yr NSPCC yn ystyried risgiau rhywiol yn rhai lefel ganolig, trais a chasineb yn risg ganolig, bwlio yn uchel, hunanladdiad a hunan-niweidio yn risg ganolig ac yfed, cyffuriau a throsedd yn risg ganolig.

Tiktok

Mae TikTok yn blatfform cyfryngau cymdeithasol ar gyfer creu, rhannu a darganfod fideos cerddoriaet byr. Mae'r fideos yn cynnwys canu, dawnsio a chyseinio. Mae'r fideos yn cael eu recordio mewn darna 15 eiliad a gall defnyddwyr ychwanegu effeithiau arbennig cyn eu rhannu ar y platfform hwn.

Mae TikTok yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr fod o leiaf 13 oed i gael mynediad i'w blatfform. Wrth gofrestr ar TikTok, mae proffiliau defnyddwyr yn cael eu gwneud yn 'gyhoeddus' yn awtomatig. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw un weld fideos y mae defnyddwyr yn eu lanlwytho, ac anfon negeseuon uniongyrchol atynt. Mae hefyd nodwedd negeseuo yn yr ap a allai ganiatáu i ddieithriaid anfon negeseuon uniongyrchol at bobl ifanc. Mae lanlwythiadau TikTok poblogaidd yn pwysleisio cerddoriaeth orau heddiw sy'n golygu y gall rhai o'r geiriau gynnw rhegi a chynnwys rhywiol nad yw'n briodol i blant.

Mae Net aware yr NSPCC yn ystyried risgiau rhywiol yn rhai lefel ganolig, trais a chasineb yn risg ganolig, bwlio yn ganolig, hunanladdiad a hunan-niweidio yn risg ganolig ac yfed, cyffuriau a throsedd yn risg uchel.

YouTube

Mae YouTube yn blatfform fideo, lle mae defnyddwyr naill ai'n gwylio'r fideos sy'n cael eu creu neu'n creu fideos i ddefnyddwyr eraill. Mae tuedd i YouTube fod yn boblogaidd ymhlith pobl iau gan fod y syniad o fod yn ddylanwadwr ar y cyfryngau cymdeithasol yn dod yn fwy poblogaidd. Gall unrhyw un wylio YouT os oes ganddyn nhw ffôn, cyfrifiadur llechen, cyfrifiadur ac ati a'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, i gael awgrymiadau fi personol, creu rhestri chwarae, rhoi sylwadau, hoffi fideos neu danysgrifio i sianeli, mae'n rhaid i ddefnyddwyr gre cyfrif YouTube, sy'n dod o gyfrif Google. Yr oedran gofynnol ar gyfer cyfrif google yw 13 oed neu hŷn.

Mae rhai fideos yn amhriodol ac nid yw'r cyfyngiad oedran yn weladwy os nad oes ganddyn nhw gyfrif neu maen nhw wedi allgofnodi. Felly, gallai gwylwyr fod yn agored i gynnwys amhriodol a dinoethol. Hefyd, gall sylwadau a fideos fod yn gas dros ben ac yn amhriodol.

Mae Net aware yr NSPCC yn ystyried bod risgiau rhywiol, trais a chasineb, bwlio, hunanladdiad a hunan-niweidio yfed, cyffuriau a throsedd i gyd yn rhai lefel uchel.

Instagram

Mae Instagram yn blatfform cyfryngau cymdeithasol i rannu lluniau a fideos. Rhaid i ddefnyddwyr fod yn 13 oed i fod â chyfrif. Gall y cyfrif fod yn breifat fel nad oes neb ond dilynwyr cymeradwy yn gallu gweld y cynnwys neu gall fod yn gyhoeddus lle gall unrhyw un weld y proffil. Gall defnyddwyr Instagram rannu lluniau, fideos, straeon (negeseuon am 24 awr oni bai eich bod chi'n eu hychwanegu at yr uchafbwyntiau). Gall defnyddwyr hefyd ffrydio eu hunain yn fyw i unrhyw un os ydyn nhw'n gyhoeddus neu i'w ffrindiau os ydyn nhw'n breifat. Mae yna hefyd IGTV, sef fideos a all fod mor hir ag awr. Yn ogystal â gwasanaeth rhannu, mae gan Instagram wasanaeth negeseuon lle gellir cysylltu â defnyddwyr drwy neges uniongyrchol, os yw'n breifat bydd yn dod drwodd fel cais neges. Yn y nodwedd negeseuo, gallwch chi greu negeseuon grŵp o hyd at 15 o bobl.
Mae pobl ifanc wedi dechrau creu cyfrifon ar wahân wedi'u labelu 'priv'. Dyma le maen nhw'n postio lluniau a fideos anffafriol. Os yw rhieni'n ymwybodol o'u cyfrif Instagram arferol, mae'n annhebygol y byddant yn ymwybodol o'u cyfrif 'priv'.
Mae Net aware yr NSPCC yn ystyried risgiau rhywiol yn rhai lefel uchel, trais a chasineb yn risg ganolig, bwlio yn risg uchel, hunanladdiad a hunan-niweidio yn risg ganolig ac yfed, cyffuriau a throsedd yn risg ganolig.

Skype

Mae Skype yn feddalwedd am ddim lle gellir gwneud galwadau fideo a llais un i un a galwadau grŵp, ac anfon negeseuon gwib at bobl eraill ar Skype. Gallwch ddefnyddio Skype ar beth bynnag sy'n gweithio orau i chi – ar eich ffôn symudol, cyfrifiadur neu gyfrifiadur llechen. Ar skype rydych chi hefyd yn gallu ffonio ffonau ac anfon neges destun. Gallwch chi dalu wrth fynd neu brynu tanysgrifiad. Mae natur yr ap yn annog gweithgarwch rhywiol dros fideo.
Mae rhywfaint o wybodaeth ar Skype yn weladwy i bawb, ond gall defnyddwyr ei adael yn wag os nad ydyn nhw am iddi gael ei dangos yn eu proffil. Nid yw Skype yn dangos eich cyfeiriad e-bost. Ni all neb ei weld wrth edrych ar eich proffil. Dim ond ffrindiau sydd eisoes yn gwybod eich cyfeiriad e-bost all ei ddefnyddio i chwilio amdanoch chi. (Cymorth Skype).
Gall pawb weld Enw Skype y defnyddiwr, Enw Arddangos Skype, Dinas, Talaith a Gwlad, a Llun Proffil os ydych wedi ychwanegu un.
Mae Net aware yr NSPCC yn ystyried bod risgiau rhywiol, trais a chasineb, bwlio, hunanladdiad a hunan-niweidio ac yfed, cyffuriau a throsedd yn rhai lefel ganolig.

Discord

Rhaglen sgwrsio drwy negeseuon testun ac ar lafar am ddim i gemwyr sy'n gweithio ar gyfrifiaduron a ffonau. Mae'n caniatáu i chwaraewyr gemau cyfrifiadurol ddod o hyd i'w gilydd, chwarae a siarad wrth chwarae. Rhaid i ddefnyddwyr fod yn 14 oed neu'n hŷn Mae Discord yn cynnwys llawer o weinyddion y gall unrhyw un ymuno â nhw, ond i ymuno â'r gweinydd hwnnw mae angen i rywun o'r gweinydd hwnnw roi'r ddolen i chi yn aml. Gall defnyddwyr hefyd ofyn am wahoddiad i'r gweinydd hwnnw. Hefyd, gall ffrindiau ar yr un gweinydd wneud galwadau grŵp. Er, gall defnyddwyr greu rhestr o ffrindiau y gellir cysylltu â nhw y tu allan i'r gweinydd. Mae hyn yn caniatáu i reibwyr gysylltu â phobl ifanc a gallan nhw fod yn agored i negeseuon niweidiol a chas.
Mae Net aware yr NSPCC yn ystyried bod risgiau rhywiol, trais a chasineb, bwlio, hunanladdiad a hunan-niweidio ac yfed, cyffuriau a throsedd yn rhai lefel ganolig.

WhatsApp

Mae WhatsApp yn wasanaeth negeseuon, gallwch rannu lluniau, fideos, galwadau llais a galwadau fideo. Rhaid i chi fod yn 16 oed i gofrestru i ddefnyddio WhatsApp. Gall defnyddwyr anfon eu lleoliad byw at unigolion neu mewn grŵp. Gellir rhannu lleoliadau am ba mor hir y mae'r defnyddiwr yn dymuno ei rannu. Gall defnyddwyr roi'r gorau i rannu lleoliad ac yna ni fydd eu lleoliad byw yn cael ei rannu. Fodd bynnag, bydd y defnyddwyr y cafodd y lleoliad ei rannu â nhw yn dal i allu gweld y lleoliad byw cychwynnol a gafodd ei rannu. Mae'r ap diwygiedig wedi'i amgryptio o ben i ben Pan fydd negeseuon a galwadau wedi'u hamgrymptio o ben i ben, maen nhw wedi'u diogelu, felly dim ond y person sy'n anfon ac yn derbyn y neges neu'r alwad sy'n gallu ei darllen neu wrando arni. Ni chaniateir i WhatsApp wybod y cynnwys. Gall defnyddiwr WhatsApp greu grwpiau o hyd at 256 o bobl sy'n caniatáu i negeseuon a lluniau gael eu rhannu â llawer iawn o bobl. Hefyd, gall annog bwlio. Mae WhatsApp yn defnyddio cysylltiad rhyngrwyd yn hytrach na lwfans neu daliadau ffôn.
Perygl WhatsApp, yn wahanol i apiau eraill, yw bod rhifau cyswllt y defnyddiwr yn cael eu harddangos a dyna sut mae defnyddwyr eraill yn eu hychwanegu.
Mae Net aware yr NSPCC yn ystyried bod risgiau rhywiol, trais a chasineb, bwlio, hunanladdiad a hunan-niweidio ac yfed, cyffuriau a throsedd yn rhai lefel ganolig.

Roblox

Mae Roblox yn gasgliad o gemau bach. Gellir chwarae Roblox ar gyfrifiaduron, consolau gemau, ffonau clyfar a chyfrifiaduron llechen. Wrth gofrestru i Roblox, mae defnyddwyr yn creu rhithffurf ac yn gallu dewis eu gwisgoedd. Gall defnyddwyr wedyn chwarae'r gêm mae rhithffurfiau eraill wedi'u hadeiladu neu gallant greu eu gemau eu hunain. Cafwyd hefyd straeon yn y cyfryngau am rhithffurfiau'n ymosod ar rithffurfiau eraill, gan annog trais.
Gall defnyddwyr ychwanegu ffrindiau a sgwrsio â nhw wrth chwarae. Mae'r elfen ychwanegu a negeseuo yn galluogi dieithriaid i gysylltu â defnyddwyr. Gan fod y defnyddiwr wedi'i greu fel rhithffurf, gallai hyn fod yn unrhyw un. Hefyd, mae'r gemau hyn yn cael eu defnyddio i ddenu plant ifanc i fathau eraill o gyfryngau cymdeithasol weithiau.
Mae Net aware yr NSPCC yn ystyried risgiau rhywiol yn rhai lefel ganolig, trais a chasineb yn risg uchel, bwlio yn risg uchel, hunanladdiad a hunan-niweidio yn risg isel ac yfed, cyffuriau a throsedd yn risg ganolig. Yn ôl gwefan net aware yr NSPCC, y sgôr oedran swyddogol yw 7+.

# CAAR

Mae CAAR (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg) yn cyfarfod bob 2 wythnos ac yn trafod yr achosion cam-drin domestig â'r risg uchaf. Mae asiantaethau amrywiol yn mynychu, gan gynnwys yr Eiriolwr Annibynnol ar Drais Domestig (sy'n llais y dioddefwr), gwasanaethau plant, gwasanaethau oedolion, diogelu addysg, tai gan gynnwys cymdeithasau tai, iechyd, iechyd meddwl, yr heddlu (sy'n cadeirio'r cyfarfod), a'r gwasanaeth prawf. Yn y cyfarfod mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu rhwng cynrychiolwyr am y partïon dan sylw (dioddefwr, troseddwr a phlant), mae cynllun/mesurau diogelwch sy'n seiliedig ar risg yn cael eu rhoi ar waith a'u cytuno, ac mae asiantaethau'n awgrymu camau gweithredu sy'n gyraeddadwy i'w sefydliad.

Bydd yr heddlu yn asesu risg digwyddiadau yn seiliedig ar y digwyddiad y cafodd ei adrodd iddyn nhw, hanes troseddu blaenorol y troseddwr, ymgysylltu â'r dioddefwyr ac a fu digwyddiad blaenorol yn ystod y 12 mis diwethaf (gwaethygu). Mae'r risgiau yn cael eu hasesu naill ai yn Safonol, Canolig neu Uchel.

# CAACD

CAACD

Cafodd Gwasanaeth y Cydlynydd Asesu ac Atgyfeirio Cam-drin Domestig (CAACD) ei ddatblygu oherwydd roedd proses ar waith i gefnogi dioddefwyr mewn risg uchel o gam-drin domestig ond dim byd ar waith ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig risg safonol a chanolig yn y Fro. Mae'r CAACD yn derbyn HDCau (Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd) risg Safonol a Chanolig gan aseswyr risg yr heddlu.

1. Bydd CAACD yn ymchwilio i'r rhai sy'n gysylltiedig drwy ddefnyddio cronfa ddata'r heddlu, cronfa ddata addysg, cronfa ddata ASBIT a chronfa ddata gwasanaethau plant.
2. Os oes caniatâd ar y HDC, bydd y CAACD yn cysylltu â'r dioddefwr ac yn canfod ei anghenion, pryderon, unrhyw gyfranogiad cyfredol ac yn cyfeirio i asiantaethau perthnasol drwy rannu'r HDC.
3. Os nad oes caniatâd, bydd y CAACD yn rhannu'r HDC â gwasanaethau statudol lle mae plant yn cael eu nodi i'w diogelu.

Nod y gwasanaeth CAACD yw:

- Sicrhau bod llais y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei glywed a'i wrando arno
- Sicrhau bod y cymorth iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn
- Galluogi adnabod angen yn gynnar ac ymyrraeth gynnar
- Rhannu gwybodaeth â'r gwasanaeth priodol heb ddyblygu.

Pan fydd y gwasanaeth CAACD yn rhannu HDC ag ysgolion, bydd ffurflen gais am wybodaeth CAACD hefyd. Dim ond os oes gan yr ysgol unrhyw bryderon am y plant y mae'n ofynnol i gwblhau a dychwelyd hyn .

# Cyfraith Clare

Cyfraith Clare: Cynllun datgelu cam-drin domestig

Mae'r cynllun hwn yn galluogi pobl i ddysgu a oes gan eu partner, neu bartner posibl, hanes o gam-drin neu drais, ac mae bellach ar waith. Fe'i gelwir yn Gyfraith Clare, a hefyd yn galluogi eraill â phryderon (e.e. aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion) i wneud cais os oes ganddynt bryderon am les rhywun arall.

Mae'n gwirio a oes gan rywun record o ymddygiad cam-driniol, neu os oes gwybodaeth arall i ddynodi y gallai fod risg, a byddwn yn ystyried rhannu'r wybodaeth hon gyda'r person y gwnaethoch gredu ei fod mewn perygl. Nod y cynllun yw helpu pobl i wneud penderfyniad mwy gwybodus ar b'un ai i barhau â pherthynas, a rhydd help a chymorth pellach i gynorthwyo pobl sy'n gwneud y dewis hwnnw.

Pwy all ofyn am y wybodaeth?

Gallwch wneud cais am eich partner os oes gennych bryder y gall eich niweidio;

Gall unrhyw drydydd parti pryderus, fel rhiant, cymydog neu ffrind wneud cais os oes ganddyn nhw bryderon am les person arall.

Ni fyddai person trydydd parti sy'n gwneud cais yn derbyn y wybodaeth. Câi ei rhoi i'r person sydd mewn perygl, neu rywun sydd mewn sefyllfa i amddiffyn y person y credir ei fod mewn perygl.
Sut alla i wneud cais am y wybodaeth?
Gallwch chi:
Ffonio 101
Siarad â swyddog heddlu
Mynd i orsaf heddlu
Os ydych chi'n credu bod risg uniongyrchol o niwed i rywun, neu os yw'n argyfwng, dylech ffonio 999 bob amser.

# Cyfraith Sarah

Mae Cyfraith Sarah, neu'r Cynllun Datgelu Troseddwyr Rhyw yn Erbyn Plant yn caniatáu i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid ofyn i'r heddlu ddweud wrthyn nhw a oes gan rywun gofnod troseddol am droseddau rhywiol yn erbyn plant.  Mae'n cael ei defnyddio yr un ffordd â chyfraith Clare. Mae'r cynllun ar gyfer unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno darganfod a oes gan unigolyn sydd mewn cysylltiad â phlentyn gofnod o droseddau rhywiol yn erbyn plant.
Os yw gwiriadau'r heddlu yn dangos bod gan yr unigolyn gofnod ar gyfer troseddau rhywiol yn erbyn plant, neu droseddau eraill a allai roi'r plentyn mewn perygl, bydd yr heddlu'n ystyried rhannu'r wybodaeth hon. Bydd yr heddlu ond yn ystyried dweud wrth y person sydd yn y sefyllfa orau i amddiffyn y plentyn – fel arfer rhiant, gofalwr neu warcheidwad – os oes gan y person sy'n cael ei wirio gofnod o droseddau rhywiol yn erbyn plant neu droseddau eraill sy'n dangos y gallent beri risg i blentyn. Bydd yr heddlu yn datgelu gwybodaeth dim ond os yw'n gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur i wneud hynny er budd diogelu'r plentyn, neu'r plant, rhag niwed.
Ni fydd gwrthrych y wybodaeth yn cael gwybod os yw'n cael ei wirio oni bai bod datgeliad yn digwydd.  Os bydd datgeliad yn digwydd, efallai y bydd gwrthrych y wybodaeth yn cael gwybod bod rhywun yn mynd i dderbyn datgeliad amdanynt.

# Bright Sky

Mae Bright Sky yn ap dyfais symudol i'w lawrlwytho am ddim, a lansiwyd mewn partneriaeth â Sefydliad Vodafone. Mae ar gael yn Saesneg, Wrdw, Pwnjabeg a Phwyleg. Mae ganddo gyfeiriadur unigryw ledled y DU o wasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol gyda manylion cyswllt, offeryn Siwrnal diogel i gofnodi achosion o gam-drin ar ffurf testun, sain, fideo neu lun, heb i ddim o'r cynnwys gael ei gadw ar y ddyfais ei hun, holiaduron i asesu diogelwch perthynas, ynghyd ag adran ar chwalu mythau ynghylch cam-drin domestig a rhywiol. Hefyd, mae'n cynnwys dolenni i ragor o wybodaeth ac adnoddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig.

# Hollie Guard

Mae ysgwyd neu tap syml yn actifadu Hollie Guard, gan anfon eich lleoliad a'ch tystiolaeth sain / fideo yn awtomatig i'ch cysylltiadau dynodedig.

<u>Rhybudd Personol</u>
Proffil larwm generig y gellir ei addasu gyda'ch dewis o lun. Bydd ysgwyd eilwaith yn cynhyrchu golau sy'n fflachio a sŵn uchel i dynnu sylw at y sefyllfa.
<u>Rhybudd Llechwraidd</u>
Mae Rhybudd Llechwraidd yn caniatáu i chi godi rhybudd yn gyfrinachol ac yn dawel, sy'n berffaith ar gyfer sefyllfaoedd lle nad ydych chi eisiau i unrhyw un wybod bod rhybudd wedi'i godi.
<u>Rhybudd Atal</u>
Mae'r proffil larwm hwn yn ei gwneud hi'n amlwg iawn i unrhyw un sy'n edrych ar y ffôn bod rhybudd wedi'i godi a bod eich lleoliad, ynghyd â thystiolaeth, wedi'u lanlwytho. Bydd ysgwyd eilwaith yn cynhyrchu golau sy'n fflachio a sŵn uchel i dynnu sylw at y sefyllfa. (Holly Guard).

# Who to report to?

SAFER VALE BRO DDIOGELACH

**Vale of Glamorgan Council**

- Abandoned Cars
- Discarding needles/drug paraphernalia
- Fly tipping
- Inconvenient/illegal parking
- Litter/rubbish
- Noise from pubs/clubs
- Noisy neighbours
- Uncontrolled animals

(01446) 700111
contactonevale@valeofglamorgan.gov.uk

**South Wales Police**

- Criminal Damage/vandalism
- Drug misuse & dealing
- Graffiti
- Intimidation/ harassment/ Verbal abuse
- Rowdy behaviour (including street drinking)
- Vehicle-related nuisance & inappropriate vehicle use
- Youth Annoyance

101
publicservicecentre@south-wales.pnn.police.uk

**Safer Vale Partnership**
Barry Police Station, Gladstone Road, Barry, Vale of Glamorgan, CF63 1TD

**Partneriaeth Bro Ddiogelach**
Gorsaf Heddlu y Bari, Heol Gladstone, Y Bari, Bro Morgannwg, CF63 1TD

safervale@south-wales.pnn.police.uk (01446) 450200 www.safervale.co.uk @safer_vale Like us on Facebook

Working Together for Safer Communities
yn cydweithio dros gymunedau diogelach

# I bwy y dylid rhoi gwybod?

SAFER VALE BRO DDIOGELACH

**Cyngor Bro Morgannwg**

- Ceir wedi'u gadael
- Nodwyddau / offer cyffuriau wedi'u taflu
- Tipio anghyfreithlon
- Parcio anghyfleus / anghyfreithlon
- Sbwriel / gwastraff
- Sŵn o dafarndai / clybiau
- Cymdogion swnllyd
- Anifeiliaid heb fod dan reolaeth

(01446) 700111
contactonevale@valeofglamorgan.gov.uk

**Heddlu De Cymru**

- Difrod Troseddol / fandaliaeth
- Camddefnyddio a gwerthu cyffuriau
- Graffiti
- Brawychu / aflonyddu / cam-drin geiriol
- Ymddygiad stwrllyd (gan gynnwys yfed ar y stryd)
- Niwsans cerbydau a defnydd amhriodol o gerbydau
- Aflonyddwch ymysg pobl ifanc

101
publicservicecentre@south-wales.pnn.police.uk

**Safer Vale Partnership**
Barry Police Station, Gladstone Road, Barry, Vale of Glamorgan, CF63 1TD

**Partneriaeth Bro Ddiogelach**
Gorsaf Heddlu y Bari, Heol Gladstone, Y Bari, Bro Morgannwg, CF63 1TD

safervale@south-wales.pnn.police.uk (01446) 450200 www.safervale.co.uk @safer_vale Like us on Facebook

Working Together for Safer Communities
yn cydweithio dros gymunedau diogelach

**www.safervale.co.uk**